

Cyngor Cymuned Cerrigydrudion

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 12eg Awst 2020

Presennol - Ffuon Williams Cadeirydd, Maria Roberts, Einion Edwards, John D Jones, Prys Ellis, Menai Hughes, Guto Jones,, Cyng. Peter Lewis . Caerwyn Roberts Clerc.  
Carol Humphreys.

Ymddiheuriadau , Trystan Humphreys,leuan Jones, Cyng Peter Lewis,

Datgan diddordeb - Dim datganiad

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 25ain Chwefror 2020

Materion yn Codi.

[1] Yr Heddlu

Nid oedd yr heddlu'n bresennol. Y clerch i wneud ymholiad ynglyn a camerau cyflymder ar y triongl EVO.

[1.1] Strategaeth Hiraethog / Fferm Wynt Brenig

Nodwy bod rhaid gwneud y ceisiadau nesa erbgyn yr 2ail o Fedi

[1.2] Coed Mynwent Ucha'r Eglwys/ Tocio'r Coed

Y clerch i gysyllty gyda cwmni Nant Conwy.

[1.3] Pont Pentrellyncymer

Nodwyd yn siomedig nad oedd gwaith atgyweirio wedi ei wneud, y clerch i gysylltu eto gyda Gwyn Parry o'r Cyngor Sir.

[1.4] Arwydd Stryd King / Yr Ysgol

Dywedodd y clerch fod y mater yn cael sylw gan y Cyng Peter Lewis.

[1.5] Swydd y Clerc

Y clerch a Carol Humphreys i gysylltu yn dilyn adroddiad yr archwiliwr allanol

[1.6] Gwasanaethau Cynaliadwy

Nodwyd bod y mater yn parhau.

[1.7] Gosod Ffens ar gyfer y fynedfa i'r Ystafell Blwyf.

Yn disgwyl ateb y Cyngor Sir ar ol iddynt fesur y llwybyr

[1.8] Project Conwy/ Llwybr Bach /

Nodwy bod y mater yn parhau

Y brif Agenda

[1.9] Bosus Blodau/ Sgwar y Llan

Y clerch i gysylltu gyda Mr Paul Donoghue gyda golwg iddo ofalu am y bocsus

[2] Gwteri

Deallwyd bod y gwteri canlynol yn parhau heb sylw. Y clerch i wneud ymholiadau [ a ] Cae Llwyd [b] Gyferbyn a'r Feddygfa [c] Gyferbyn a Trem Anner [d] Gyferbyn a mynediad i Bwlch y Beudy.

[2.1] Ffos Rhos Nant

Eglurodd y clerc nad oedd gwybodaeth pellach wedi ei dderbyn gan y Cyngor Sir ynlgun cyfrifoldeb am y ffos

[2.2] Cais Cynllunio

Codi sied amaethyddol – Trem Eryri, Cerrig-y-Drudion LL21 ORT

Penderfynwyd nad oedd gwrthwynebiad i'r cais uchod

[2.3] Cyfrifon

[a] Cymeradwywyd cyfrifon am y flwyddyn ariannol Ebrill 2019 –Mawrth 2020

[b] Adroddiad yr Archwiliwr Mewnol, nodwyd fel a ganlyn:

[1]Roedd y sieciau na gyflwynwyd i'r banc wedi ei tynnu allan o'r fantolen cyfrifon yn hytrach na chyfrif y banc

[2]Nid oedd £153.54 wedi ei nodi yn y cyfrif, sef costau claddu £150.00/ llog £3.54

[3] Roedd sieciau o £943.12 wedi ei canslo, wedi ei cynnwys fel derbyniadau a oedd yn datgan yn ormodol yn y cyfrifon.

[4] Nid oedd cofnodion Gorffennaf/Awst/Hydref wedi ei llofnodi gan y Cadeirydd.

[5] Roedd yn anodd dilyn y taliadau o'r llyfr anfonebai i'r cyfrifon gan nad ydi'r taliadau wedi ei rhifo. Y clerc i nodi'r uchod a chywiro lle bod angen.

[c] Cymeradwyd y ffurflen flynyddol ar gyfer ei hanfon i'r archwiliwr allanol

[2.4] Rhaglen Chwarae'r Haf

Penderfynwyd ymuno a'r rhaglen, nodwyd y gost £400.00

[2.5] Y Llyfrgell

Dywedodd y clerc fod y llyfrgell wedi bod yn llwyddiannus gyda chais â grant o £10,000

[2.6] Y Gofgolofn

Nodwyd bod Mr John Rennie wedi glanhau a phaentio'r railings o flaen y gofgolofn. Y clerc i gael gair gyda Mr Rennie ynglŷn â chostau'r paent ayb, gyda golwg i'r Cyngor gyfrannu tuag at y gost.

Cadeirydd \_\_\_\_\_